**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**21 Gorffennaf 2014**

# CYNNIG I YMGYSYLLTU AC YMGYNGHORI Â'R CYHOEDD YNGHYLCH Y CYNLLUN AR Y CYD I LEIHAU RISG A GWELLA O 2015-16 AC YMLAEN

**Adroddiad gan Ruth Simmons, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r aelodau am y strategaeth arfaethedig ar ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun ar y Cyd i Leihau Risg a Gwella, o 2015-16 ac ymlaen.

## Cefndir

2 Dan Fesur Llywodraeth Leol 2009, mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, fel un o'r Awdurdodau Gwella Cymreig, wneud y canlynol:

- Penderfynu ar ei amcanion gwella ei hun dan unrhyw un o saith elfen sydd wedi eu diffinio ar gyfer gwella. Er bod gofyn iddo osod amcanion gwella bob blwyddyn, nid yw hynny'n golygu bod yn rhaid i'r amcanion newid bob blwyddyn, nac ychwaith fod yn rhaid eu cyflawni o fewn blwyddyn.

- Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ei amcanion am gyfnod o amser. Nid oes amser penodol ar gyfer ymgynghoriadau, ond rhyw 12 wythnos y maent yn ei bara fel arfer. Rhaid i'r ymgynghoriadau gael dyddiad cychwyn a dyddiad cau pendant.

3 Yn y cyfarfod ar 16eg Mehefin 2014, bu aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ystyried yr Amcan Gwella drafft a phenderfynu'r canlynol:

(i) er mwyn cadw lefel bresennol y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Ngogledd Cymru, dylid cael cynnydd yn y gyllideb. Fodd bynnag, dylai'r amddiffyniad, sef na ddylai lefel y cynnydd blynyddol gyfateb i ddim mwy na £1 yn ychwanegol y pen o'r boblogaeth yng Ngogledd Cymru, barhau ac ymestyn o 2016-17 i 2019-20;

(ii) dylid ymgynghori'n eang a chadarn ynghylch hyn er mwyn penderfynu ar y strategaeth 5 mlynedd hon erbyn cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Rhagfyr.

## Gwybodaeth

4 Pwrpas y strategaeth ymgynghori yw nodi sut y gall aelodau ATAGC gael barn y cyhoedd ar eu hamcanion drafft cyn dewis y ffordd orau ymlaen ar gyfer dyfodol gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru. Mae'r broses hon yn bwysig o ran llunio'r amcanion drafft hynny cyn iddynt gael eu cyhoeddi yn y Cynllun i Leihau Risg a Gwella, a sicrhau bod gan y cyhoedd ffydd yn y penderfyniadau a wneir.

5 Goleuwyd y strategaeth gan Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd Cyfranogaeth Cymru (2011), a gefnogwyd gan Brif Weinidog Cymru:

- Cynllunnir yr ymgysylltu'n effeithiol i wneud gwahaniaeth
- Annog a galluogi pawb a effeithir i gymryd rhan, os ydynt yn dewis hynny
- Cynllunnir a chyflwynir yr ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol
- Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol
- Ni fydd unrhyw jargon yn rhan o'r wybodaeth a ddarperir a bydd yn briodol ac yn hawdd i'w deall
- Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan
- Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol
- Rhoddir yr adnoddau a'r gefnogaeth briodol i ymgysylltu er mwyn iddo fod yn effeithiol
- Mae pobl yn cael gwybod beth yw effaith eu cyfraniad
- Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses o ymgysylltu

6 Diffiniad Cyfranogaeth Cymru o ymgysylltu yw proses weithredol a chyfranogol a ddefnyddir gan bobl er mwyn siapio a dylanwadu ar bolisïau a gwasanaethau, sy'n cynnwys amrywiaeth eang o wahanol ddulliau a thechnegau. Y diffiniad o ymgynghori yw proses ffurfiol a ddefnyddir gan lunwyr polisïau a darparwyr gwasanaeth i holi am farn grwpiau ac unigolion â diddordeb.

7 Mae'r strategaeth yn adlewyrchu'r egwyddorion a'r diffiniadau hyn. Mae'n fesuradwy, o ran y bydd pob cyfrwng cyfathrebu yn meddu ar ei fetrigau penodol ei hun ar gyfer gwerthuso. Gosodwyd targed i gael 20% yn fwy o ymgysylltu ansoddol a meintiol, o'i gymharu ag ymgynghoriadau blaenorol, pryd y cafwyd 30 o ymatebion ar gyfartaledd. Adnabuwyd y cynulleidfaoedd targed drwy fapio rhanddeiliaid, gan gwmpasu trigolion Gogledd Cymru, sefydliadau sy'n bartneriaid inni, Llywodraeth Cymru, gwleidyddion lleol, staff y gwasanaeth.

## Negeseuon Allweddol i Randdeiliaid

8 Negeseuon allweddol yw'r ymadroddion sy'n cyfleu'r prif syniadau yr ydym am eu mynegi i'n cynulleidfaoedd. O'u mynegi'n gyson ac yn aml, gallant fod yn gymorth i siapio'r canfyddiadau o'r sefydliad. Bydd y negeseuon allweddol yn cael eu siapio gan yr amcanion sydd yn y Cynllun Gwella Drafft. Er enghraifft:

- Mae ATAGC wedi ymrwymo i wneud ardal y gwasanaeth yng Nghymru yn ardal ddiogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi. Ein nod yw gwella bywydau pobl drwy fynd ati'n barhaus i geisio cael gwelliant yn y gwasanaethau a ddarparwn ac i wneud mwy na dim ond cyflawni isafswm y gofynion.

- Mae gan ein cymunedau a'n partneriaid ran hollbwysig i'w chwarae yn ein cynorthwyo i wella ein gwasanaeth, lleihau risg, a datblygu cymunedau mwy diogel.

- Bydd ATAGC yn ymdrechu i barhau i gyflawni mewn perthynas â disgwyliadau mawr am effeithlonrwydd a gwerth am arian, tra hefyd yn parhau i hybu gwelliant drwy weithredu ffyrdd newydd o weithio yn hytrach na gweld gostyngiad yn y gwasanaethau a ddarperir.

- Mae'r Awdurdod yn ceisio cynyddu’r gyllideb flynyddol ddim ond digon i gynnal lefel gyfredol y gwasanaeth, gan ddiogelu na ddylai lefel y cynnydd blynyddol gyfateb i swm sy’n fwy na £1 yn ychwanegol y pen y flwyddyn yng Ngogledd Cymru.

9 Bydd negeseuon allweddol ychwanegol, a fydd yn gysylltiedig â’r amcanion penodol yn y Cynllun Gwella Drafft, yn dod yn rhan o’r strategaeth ymgysylltu ac ymgynghori yn dilyn y cam cyntaf.

## Cyfathrebu Allanol

10 Darperir yr holl gyfathrebu allanol yn ddwyieithog ac mewn amrywiaeth o ffurfiau, er enghraifft Braille, arolwg dros y ffôn. Rhoddir ystyriaeth hefyd i anghenion pob cynulleidfa, a chwmpasu amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys e-bost/MailChimp, y cyfryngau cymdeithasu, gwefan y gwasanaeth, ac mewn digwyddiadau cymunedol.

11 Gofynnir i Aelodau’r Awdurdod Tân ac Achub fynd ati i annog ymgysylltu â rhanddeiliaid. Gallai’r Aelodau gefnogi ymgysylltiadau pellach a digwyddiadau ymgynghori lleol, megis sioeau teithiol ynghylch gofal tân mewn ardaloedd gwledig.

## Cyfathrebu Mewnol

12 Bydd y cyfathrebu mewnol yn arwyddocaol i gefnogi unrhyw benderfyniadau a wneir gan ATAGC. Er mwyn i’r cyfathrebu fod yn effeithiol, mae gan holl aelodau’r sefydliad ran i’w chwarae yn cynllunio ac yn cynnal gweithgareddau cyfathrebu. Darperir gwybodaeth i’r staff mewn dewis o ieithoedd, Cymraeg neu Saesneg, drwy gyfrwng y fewnrwyd, cylchlythyr/cylchgrawn staff, diweddariad/briffiad y Prif Swyddog, briffiadau mewnol ac ymweliadau â gorsafoedd.

## Bwydo’r canlyniadau’n ôl i’r rhanddeiliaid

13 Mae’n bwysig terfynu’r broses drwy sicrhau bod y rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn cael gwybod am ganlyniadau’r ymgysylltiad a’r ymgynghoriad.

14 Gwneir hyn drwy adroddiad i Aelodau'r Awdurdod, a'i hyrwyddo drwy ymgyrch yn y cyfryngau, gan gynnwys y cyfryngau traddodiadol a'r cyfryngau cymdeithasu, gyda dolenni i'r adroddiad llawn ar ein gwefan, yn ogystal â chamau i hyrwyddo adborth o fewn y sefydliad, megis Penawdau'r Awdurdod, Briffiad Wythnosol, Y Fflam ayyb.

## Argymhellion

15 Bod yr Aelodau'n:
   (i) nodi'r gwahanol agweddau ar y strategaeth ymgynghori; a
   (ii) cefnogi'r negeseuon allweddol.